

Ar ddydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Trefeurig yn Ysgol Trefeurig am 7.00 pm  
**PRESENNOL:** Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Tegwyn Lewis; D Mervyn Hughes; D Sheppard; Trefor Davies; Mrs E Davies, Mrs G Price a'r cler

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod a chyflwynodd y siaradwr gwadd cyntaf: Mr Digby Bevan, sydd newydd ddechrau ar swydd newydd, sef Swyddog Galluogi Tai Gwledig Ceredigion. Esboniodd Mr Bevan ymha ffyrdd y gallai Cynghorau Cymuned helpu i nodi anghenion a safleoedd tai fforddiadwy o fewn eu cymuned, a bod yn rhan o'r broses o ddatblygu tai fforddiadwy ar gyfer bobl leol yn fytholbarhaus.

Mae'r ail siaradwr gwadd, Mrs Eluned Lewis, yn Swyddog Cyswllt Cymunedol ar gyfer Airtricity, y cwmni sydd ymgeisio am ganiatâd cynllunio i osod fferm wynt yn cynnwys tua 60 - 80 o felinau gwynt yn ardal Nant y Moch. Esboniodd Mrs Lewis mai ei rôl yw sicrhau bod yna ymgynghori â buddgyfranogwyr a'u bod yn ymwneud â'r cynnig i greu fferm wynt trwy'r Grŵp Cyswllt Cymunedol, a'u bod elwa o'r gronfa fudd os ydy'r cais cynllunio ar gyfer y cynllun yn llwyddo. Ar hyn o bryd mae treialon yn cymryd lle i sefydlu llwybrau posib ar gyfer cludo offer i'r safle. Mae mynediad trwy Nant yr Arian yn un opsiwn sy'n cael ei ystyried a byddai hynny'n cynnwys tir o fewn Cymuned Trefeurig. Cyn cyflwyno'r cais cynllunio (yng Ngwanwyn 2010 mwyaf tebyg), cynhelir ymgynghoriadau ac arddangosiadau pellach.

**Am 8.30pm agorodd y Cadeirydd Gyfarfod y Cyngor:**

- 2647** Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth Mrs K Walker; Melvyn Evans a Daniel Jones (ymrwymadau gwaith)
- 2648** **Materion Personol:** Dim
- 2649** **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol:** Dim
- 2650** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2009 fel cofnod cywir . Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:  
**Cofnod 2624 Cofeb Rhyfel, Penrhyncoch:** Ynghylch y difrod i'r rheiliau, derbyniwyd un amcangyfrif ar gyfer eu trwsio, a disgwyliar un arall.
- 2651** **Yr Adran Briffyrdd ynghylch sedd Banc y Darren a'r cais am finiau graean:**  
Daeth galwad ffôn o'r Adran Briffyrdd yn dweud bod y slab concrid ger sedd Banc y Darren wedi'i osod yn rhy agos at ymyl y briffordd. Cysylltwyd â'r contractwr i ofyn iddo'i symud yn ôl.  
**Biniau graean:** Ar ddydd Llun 30 Tachwedd aeth aelod o'r Adran Briffyrdd gyda'r cler i ymweld â safleoedd lle gofynnwyd am finiau graean. Mesurwyd graddiant y safleoedd a doedd yr un ohonynt yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer gosod bin graean.
- 2652** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a Fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:** Adroddodd y Cyng. R Owen ar Gyfarfod a fynychwyd ganddo yn Aberaeron ar brynhawn dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2009. Rhoddodd y Siaradwr, Paul Wood, Cadeirydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, gyflwyniad ar yr adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor Sir sydd i ddod yn fuan. Cynhelir ymgynghoriadau pellach yn y man.

**Derbyniwyd ac ystyriwyd y dogfennau a'r ohebiaeth ganlynol:**

- 2653** Mae **Cyngor Cymuned y Borth** yn trefnu ymgyrch sydd wedi'i anelu at Gyngor Ceredigion yn gofyn am well gwasanaeth bws i gymunedau lleol. PENDERFYNWYD ysgrifennu llythyr o gefnogaeth.
- 2654** **Yr Hen Ysgol Trefeurig:** Hysbysiad gan Ysgrifennydd y Grŵp Datblygu bod Ceredigion wedi ymestyn ei phrydles ar adeiladau'r ysgol am flwyddyn arall. PENDERFYNWYD nodi hynny a pharhau i gynnal cyfarfodydd y cyngor yno bob yn ail fis.

- 2655 Aseiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2010:** Holiadur ynghylch problemau diogelwch canfyddadwy'r Cyngor Cymuned. PENDERFYNWYD ei basio i'r Cyng. M Hughes i adrodd yn ôl arno yng Nghyfarfod mis Ionawr.
- 2656 Cyngor Sir Ceredigion – Gwydroi Llwybr Troed 9/38:** Hysbysiad yn cadarnhau bod llwybr troed 9/38 Cwmisaf, Penbontrhydybeddau, wedi'i wydroi.
- 2657 Canllawiau Drafft gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Cod Ymddygiad:** PENDERFYNWYD ei basio i'r Cyngor R Owen i adrodd arno yng nghyfarfod mis Ionawr.
- 2658 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cynllun Gweithredu 2010-2011:** PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2659 LICC – Canllawiau Gwella ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru:** PENDERFYNWYD ei nodi.

#### Materion Ariannol

- 2660 HSBC – balans Cyfrif Cymunedol ar 13/12/09: £1,000 02**
- 2662 Greenbarnes:** Derbyniwyd hysbysiad y bydd dau hysbysfwrdd yn cyrraedd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.
- 2663 Adran Gyllid Cyngor Sir Ceredigion:** Cais i gwblhau a dychwelyd y Ffurflen Archebiant erbyn diwedd Ionawr. PENDERFYNWYD pennu cyllideb 2010/2011 a gosod yr Archebiant yng nghyfarfod mis Ionawr.

#### Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:

- 2664 Viking Direct:** Inc a phapur ar gyfer y printyr - £75.87 + TAW £11.38: **Cyfanswm £87.25** siec 950
- 2665 F J Walker:** Trwsio hysbysfyrddau - **£25** siec 951
- 2666 Linda Griffiths:** Cyfieithu - Tachwedd 2009 - **£50.71** siec 952
- 2667 P Walker:** Cyflog Hydref/Rhagfyr 2009 - **£617.24** siec 953
- 2668 Bil BT hyd 13/12/09** - galwadau a thaliadau £94.64+Taw £13.53 **Cyfanswm £108.17** siec 954
- 2669 SLCC –Tâl Aelodaeth 2010/11 - £72** siec 955

#### Derbyniwyd hysbysiad ynghylch y Penderfyniadau Cynllunio canlynol:-

- 2670 A090533LB** Allt Fadog, Capel Madog - adfer yn dilyn difrod tân: rhoddwyd caniatâd
- 2671 A090693** 8 Maes Seilo, Penrhyncoch- estyniadau a gwelliannau: rhoddwyd caniatâd
- Ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd i'w hystyried a rhoi sylwadau arnynt:**
- 2672 A090774** 50 Dolhelyg, Penrhyncoch – Estyniadau: Dim gwrthwynebiad
- 2673 A090792** Adeiladau Biolegol Amgylcheddol ac Astudiaethau Gwledig newydd: Dim gwrthwynebiad.

#### **2674 Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm ar Ddydd Mawrth 19 Ionawr, 2010**

- 2675 Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**  
Darparu alcohol ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol  
Cais gan Glwb Pêl-droed Penrhyncoch am gefnogaeth ysgrifenedig i'w cais i Gronfa Gymunedol Ceredigion am grant tuag at gostau peiriant torri porfa newydd

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.20pm.